**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU IACHACH a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ddydd Dydd Llun, 31 Ionawr 2022**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Marc Davies, Cynghorydd Odwyn Davies, Cynghorydd Peter Davies, Cynghorydd Keith Evans, Cynghorydd Hag Harris, Cynghorydd Alun Lloyd Jones, Cynghorydd Dan Potter, Cynghorydd John Roberts a/ac Cynghorydd Ivor Williams

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

(10.00 - 10.45 am)

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Paul Hinge, Lyndon Lloyd, Mark Strong a Lynford Thomas am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim

**3 Materion Personol**

Cytunwyd i anfon llythyr at y Cynghorydd Mark Strong i ddymuno'n dda iddo.

**4 Newidiadau i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion**

Rhoddodd yr Aelod Cabinet, y Cynghorydd Dafydd Edwards drosolwg o'r adroddiad cyn i'r swyddogion roi mwy o fanylion. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai addasiadau bach a chanolig ar gyfer pobl anabl ar gael i bawb, hynny yw, argymhellwyd y dylid dileu'r Prawf Adnoddau Ariannol. Felly, gwnaed newidiadau i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai'r Sector Preifat er mwyn adlewyrchu argymhelliad Llywodraeth Cymru. Yn sgil y cynnydd mewn costau deunyddiau a llafur, cynyddwyd uchafswm y cymorth oedd ar gael ar gyfer yr addasiadau bach (a elwid gynt yn Grant Diogel, Cynnes a Saff) a'r Cymorth Atgyweirio Brys. Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r uchafsymiau ar gyfer y benthyciadau di-log yr oedd yr Awdurdod Lleol yn eu rhoi ac roedd gwybodaeth fanylach am y benthyciadau di-log wedi'i chynnwys.

Yn y gorffennol roedd y Panel Grantiau yn trafod unrhyw achosion lle'r oedd y taliadau atodol ar gyfer y Grantiau Dewisol i'r Anabl yn fwy na £15k, ynghyd ag unrhyw amgylchiadau arbennig neu unigryw. Addaswyd hyn fel bod y penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'r pwerau dirprwyedig a roddwyd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol (a nodir yn y Cyfansoddiad) gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol. Bu i'r Pwyllgor ystyried y newidiadau a gynigiwyd.

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:

> Cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i Bolisi Ariannol Benthyciadau a Grantiau Tai Sector Preifat Ceredigion.

Yn dilyn awgrym gan y Cadeirydd, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor, pan fyddai digon o amser wedi mynd heibio, y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn asesu effaith rhoi'r polisi ar waith.

**5 Cofnodion cyfarfod 16 Rhagfyr 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

Penderfynodd y Pwyllgor i gadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr yn rhai cywir.

Materion yn codi
Dim

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 14 Chwefror 2022**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**